Cofnodion cyfarfod rhif 88
Pwyllgor Cynghori Cymru
Cyfarfod hybrid ar 28 Chwefror2023

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Hywel Wiliam | Y Cadeirydd |
| Robert Andrews | Aelod |
| Tom Crick Aelod | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Sian Phipps | Aelod ar ran Cymru ar y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau |
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Maeve MacRory | Cyfarwyddwr Anweithredol |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Angharad Evans | Aelod |
| Aled Eirug | Aelod |

| **Eitemau ar yr Agenda** | **Cam gweithredu** |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 88 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Jones, Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom; Ruth McElroy, Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys; Angharad Evans, Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru ac Aled Eirug, Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru.<br><br>Fe wnaeth y Cadeirydd hefyd groesawu Maeve MacRory o gynllun Cyfarwyddwr Anweithredol (NED) y Genhedlaeth Nesaf. | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>Nododd Sian Phipps ei bod wedi cael gwahoddiad i ymuno â grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar hawliau defnyddwyr. | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022 a materion a godwyd**<br><br>• Eitem 5 – nodi gwaith y Bwrdd Cynnwys ar y telerau masnachu a'r codau comisiynu<br>• Eitem 7 – Lloeren symudol Apple yn fodel diddorol (mewn perthynas â'r gwaith roedd Apple yn ei wneud a allai alluogi galwadau lloeren brys o ffonau symudol)<br>• Eitem 8 – Polisi Cyhoeddus – newidiadau yn adrannau llywodraethol y DU | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| | |
| 4. **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br><br>Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y mae wedi bod iddyn nhw ers y cyfarfod diwethaf:<br><br>• **Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas Diwygio Etholiadol** a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 3 Rhagfyr, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau defnyddiol ar y newidiadau sydd i'w gwneud ar gyfer Etholiadau nesaf y Senedd, a fydd yn ethol 96 o aelodau yn hytrach na'r 60 aelod presennol drwy system cynrychiolaeth gyfrannol ar restr gaeedig.<br>• **Dull Ofcom o Reoleiddio Diogelwch Ar-lein**, a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr yn Swyddfa Ofcom Cymru<br>• **Rhwydwaith Radio Cymunedol Cymru (WCRN):** Cyfarfod dal i fyny anffurfiol ar 7 Rhagfyr, gyda Steve Johnson, darlithydd ym Mhrifysgol De Cymru ac un o sylfaenwyr y rhwydwaith. Disgrifiodd yr heriau ymarferol sy'n wynebu'r sector yng Nghymru.<br>• **Cyfarfod â Maggie Carver, Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys**, ar 18 Ionawr i drafod cyfranogiad yr Aelod dros Gymru yn y dyfodol yng nghyfarfodydd PCC. | |
| **5. Y wybodaeth ddiweddaraf – Polisi Cyhoeddus**<br><br>Cafodd Aelodau'r Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddatblygiadau a meysydd polisi Seneddol, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• **Newidiadau yn Llywodraeth y DU** – mae'r rhan fwyaf o gylch gwaith Ofcom yn symud o'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg: telagyfathrebiadau, sbectrwm, digidol a diogelwch ar-lein. Dim ond darlledu sy'n aros gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Mae gwasanaethau post yn symud o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) i'r Adran Busnes a Masnach (DBT). Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw adran noddi Ofcom am y tro.<br>• Helpu i ad-drefnu gweinidogion; dyma'r uchafbwyntiau: Penodwyd Lucy Frazer, Aelod Seneddol, yn Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Penodwyd Michelle Donelan, Aelod Seneddol, yn Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, ar ôl gwasanaethu fel Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ers mis Hydref 2022. Penodwyd Kemi Badenoch, Aelod Seneddol, yn Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach.<br>• **Bil Cyfryngau Drafft:** Parhau i gefnogi'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddi fwrw ymlaen â'r gwaith ar y Bil Cyfryngau drafft. Ym mis Ionawr, cyhoeddodd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei phenderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â phreifateiddio Channel 4, a rhoi diwygiadau ar waith yn lle hynny i fodel gweithredu'r darlledwr a fydd yn cael ei gynnwys yn y Bil Cyfryngau.<br>• **BBC –** Mae Ofcom yn dal i ymgysylltu'n agos â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Adolygiad Canol Tymor Siarter y BBC. Ar wahân, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar newidiadau i'r Drwydded | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| Weithredu cyn bo hir ar gynigion i ddiwygio rhai o gwotâu'r BBC ar raglenni newyddion a cherddoriaeth. | |
| **6. Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom - derbyniwyd ymddiheuriadau** | |
| **7. Adroddiad – Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br><br>Fe wnaeth Eleanor dynnu sylw at y canlynol o'i hadroddiad ysgrifenedig, a oedd wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.<br><br>• **Comisiynydd y Gymraeg** – roedd ein cyfarfod cyntaf gydag Efa Gruffydd Jones yn drafodaeth agored a gonest. Er bod Efa yn cydymdeimlo â rhai o'r heriau rydym yn eu hwynebu, nododd yn glir bod disgwyl i Ofcom gyflawni ei rwymedigaethau fel y nodir yn ei hysbysiad cydymffurfio. Fe wnaethom gyfeirio at y safonau sy'n ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol a'n cynlluniau i benodi unigolyn sy'n gyfrifol am y Gymraeg a'r cyfryngau cymdeithasol, a chroesawodd Efa hynny. Fe wnaethom nodi'r cwynion parhaus, ac rydym yn aros am benderfyniad terfynol y Comisiynydd. Cytunwyd y byddem yn trefnu i gwrdd ag Efa cyn bo hir i drafod datblygiadau yn ein gwaith.<br>• **S4C a Netflix** - Cyhoeddodd S4C bartneriaeth newydd gyda Netflix, a fydd yn gweld y cwmni anferth yn darlledu Dal y Mellt (Rough Cut) yn Gymraeg ym mis Ebrill eleni. Dyma'r tro cyntaf iddo ddarlledu drama Gymraeg a dywedodd Netflix ei fod yn gobeithio y gallai chwarae rhan yn y gwaith o helpu i "hyrwyddo a chadw'r Gymraeg."<br>• **Recriwtio** – Rydym yn recriwtio nifer o rolau yn nhîm Cymru i gefnogi ein gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg, gan gynnwys unigolyn i reoli gwaith Ofcom yn y Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol. Nododd Eleanor hefyd swyddi gwag ar gyfer rolau PCC.<br><br>• Buom mewn cyfarfod o gynghorwyr lleol ac Openreach yn Aberriw, Sir Drefaldwyn a drefnwyd gan Russell George, Aelod o'r Senedd, a Craig Williams, Aelod Seneddol. Mae'r ardal wedi'i chysylltu'n wael iawn, gyda thua 3900 o adeiladau heb fynediad at fand eang teilwng. Trafodwyd atebion posibl i'r diffyg cysylltedd gan gynnwys cynllun Partneriaeth Ffeibr Cymunedol Openreach a thechnolegau amgen fel mynediad di-wifr sefydlog. Roedd angen cyfathrebu'n well er mwyn i gymunedau fel Aberriw ddeall yn llawn yr opsiynau sydd ar gael iddynt. | |
| **8. Trafodaeth: Diffodd 2G a 3G**<br><br>Cyflwynodd y tîm eu hunain i Aelodau'r Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiffodd rhwydweithiau 2G a 3G sydd ar y gweill.<br><br>Dywedodd y tîm, er mai penderfyniad gan y darparwyr symudol yw hwn, ein bod yn monitro'r prosiect i sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar ddefnyddwyr a'n bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y diwydiant.<br><br>Rydym hefyd yn cyfathrebu â'n rhanddeiliaid ac wedi cyhoeddi canllaw i ddefnyddwyr, ac rydym wedi nodi'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr symudol pan fyddant yn | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| diffodd eu rhwydweithiau 2G a 3G. Cadarnhaodd y tîm fod y darparwyr symudol hefyd yn y broses o gyfathrebu â'u cwsmeriaid.<br><br>Nid oedd gan y tîm ddadansoddiad penodol o nifer y ffonau 2G a 3G ar gyfer Cymru, gan ychwanegu y byddai diffodd y rhwydweithiau hefyd yn effeithio ar fesuryddion clyfar, ar offer teleofal ac o bosibl ar rai cerbydau. Ychwanegodd y tîm y bydd y broses wedi'i chwblhau erbyn 2033. | |
| **9. Y wybodaeth ddiweddaraf: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom - derbyniwyd ymddiheuriadau**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau a nododd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol derbyn papur cyn y cyfarfod ffurfiol. | |
| **10. Y wybodaeth ddiweddaraf – Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>Roedd Aelod y Panel wedi cyflwyno papur ymlaen llaw ac wedi tynnu sylw at y materion canlynol:<br><br>**Rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN)** Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn monitro'r ddau dreial presennol yn Lloegr ac yn poeni y bydd yn gadael pobl heb wasanaeth llinell dir. Gallai hyn effeithio ar gwsmeriaid a busnesau gan ei bod hi'n bosibl y byddant methu â chadw'r un rhif ffôn.<br><br>Mae'r Panel yn gwneud darn o **Ymchwil i'r Farchnad** ar anabledd. Pwysleisiodd Aelod y Panel eu bod yn canolbwyntio ar y model cymdeithasol o anabledd yn hytrach na'r model meddygol.<br><br>Mae'r Panel yn ystyried cynnal **Digwyddiad Hyb** personol, o bosibl i ystyried y mater o fforddiadwyedd a gwledigrwydd. | |
| **11. Trafodaeth**<br><br>Bu Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried eu blaenoriaethau fel Pwyllgor, yn trafod effeithiolrwydd cyfarfodydd yn y dyfodol a'u dull o ymateb i ymgynghoriadau. | |
| **12. Y wybodaeth ddiweddaraf am gwynion defnyddwyr**<br><br>**Nodwyd y cynnwys** | |
| **13. Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod**<br><br>Nodwyd y cynnwys | |
| **Unrhyw faterion eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol** | |

| Eitemau ar yr Agenda | Cam gweithredu |
|---|---|
| Nododd yr aelodau waith parhaus y Panel Arbenigol sy’n edrych ar ddatganoli darlledu i Gymru.<br><br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br><br>13 Mehefin 2023 | |

______________________________ **Dyddiad**: ______________________

Cadeirydd

[remove for published minutes]